Statws *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 2

Eithriadau

Gwasanaethau cymorth cartref

3.—(1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth cymorth cartref, er gwaethaf paragraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau cymorth cartref)—

(a) y ddarpariaeth o gymorth yn unig;

(b) y ddarpariaeth o ofal a chymorth i bedwar neu lai o unigolion ar unrhyw un adeg;

(c) y ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer oedolyn—

(i) mewn perthynas deuluol neu bersonol, a

(ii) ar gyfer dim ystyriaeth fasnachol;

(d) y ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer plentyn gan riant, perthynas neu riant maeth;

(e) y ddarpariaeth o ofal a chymorth gan ofalwr pan fo gofal a chymorth o'r fath yn cael ei ddarparu heb ymglymiad ymgymeriad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi (o fewn yr ystyr a roddir i'r ymadroddion "employment agency" neu "employment business" gan adran 13 o Ddeddf Asiantaethau Cyflogi 1973(**1**)), a phan fo'r gofalwr yn gweithio'n gyfan gwbl o dan gyfarwyddyd a rheolaeth trydydd parti cysylltiedig;

(f) trefniadau ar gyfer cyflenwi gofalwyr i ddarparwr gwasanaeth gan ymgymeriad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi at ddiben darparu gwasanaeth rheoleiddiedig gan y darparwr gwasanaeth;

(g) y ddarpariaeth o ofal a chymorth pan fo'r gofal a'r cymorth wedi eu darparu gan berson sy'n rheoli carchar neu sefydliad carcharu tebyg arall.

(2) Ym mharagraff (1)(e) ac (f), ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu gofal i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(3) Ym mharagraff (1)(e), ystyr "trydydd parti cysylltiedig" yw—

(a) unigolyn a chanddo gyfrifoldeb rhiant (o fewn ystyr "parental responsibility" yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989(**2**)) ar gyfer plentyn y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddo;

(**1**) 1973 p. 35.
(**2**) 1989 p. 41.

(b) unigolyn a chanddo atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithlon arall i wneud trefniadau ar ran yr unigolyn y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddo;

(c) grŵp o unigolion a grybwyllir naill ai yn is-baragraff (a) neu yn is-baragraff (b) sy'n gwneud trefniadau ar ran dim mwy na phedwar unigolyn a enwir y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddynt;

(d) ymddiriedolaeth a sefydlir at ddiben darparu gwasanaethu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn a enwir.

(4) Gweler rheoliad 5 am ystyr perthynas deuluol neu bersonol.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 3 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Statws
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to :

- reg. 3 coming into force by S.I. 2017/1264 reg. 1(2)
- reg. 3(1)(g) semicolon substituted for full stop by S.I. 2019/757 reg. 5(a)
- reg. 3(1)(i) punctuation mark substituted by S.I. 2022/1074 reg. 5(a)
- reg. 3(1)(i) semicolon substituted for full stop by S.I. 2020/570 reg. 5(a)
- reg. 3(1)(j) inserted by S.I. 2020/570 reg. 5(b)
- reg. 3(1)(j) and words omitted by S.I. 2022/1074 reg. 5(b)

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

- reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
- reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)